**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 4 Medi 2023 am 3.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd R Fogarty (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| S E Keeton | M Baker | H Lawson |
| S J Rice | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
| --- | --- |
| C Anderson | Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Gwasanaethau) |
| D H Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad |
| A S Lewis | Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Christina Derrick | Cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol (PNL) |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Chris Howell | Pennaeth Rheoli Gwastraff |
| Rachel Lewis | Rheolwr Prosiect |
| Paul Meller | Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Perkins | Arweinydd Grŵp Rheoli Gwastraff |
| Jane Richmond | Rheolwr Prosiect – Newid yn yr Hinsawdd Strategol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): O G James and A J O'Connor

---

## 15 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd S J Rice gysylltiad personol â Chofnod Rhif 17 - Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ar gyfer Abertawe.

## 16 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 17 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ar gyfer Abertawe

Cyflwynodd Deborah Hill, Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur, adroddiad a oedd yn gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor ar gyfer y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol drafft ar gyfer Abertawe.

Amlinellwyd bod Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol yn gynlluniau partneriaeth anstatudol a gynhyrchir gan y Partneriaethau Natur Lleol (PNLlau) yn yr awdurdod lleol neu'r Parc Cenedlaethol perthnasol yng Nghymru. Mae pob Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol yn cyd-fynd â, ac yn cael ei lywio gan bolisi bioamrywiaeth cenedlaethol Cymru sef y Cynllun Adfer Natur.

Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yw'r Strategaeth Bioamrywiaeth a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru ac mae'n disgrifio sut yr eir i'r afael â Chynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth Confensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi cysylltiedig ar gyfer 2011-20 yng Nghymru) yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion cefndir a'r argyfwng natur.  Ychwanegwyd bod Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe yn nodi blaenoriaethau ar gyfer mynd ati i adfer natur yn Abertawe fel themâu gweithredu. Fe'u llywiwyd ar y lefel uchaf gan y chwe amcan a'r pum thema gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, ond roedd gwybodaeth a blaenoriaethau lleol yn sail iddynt, yn ogystal â'r themâu a amlygwyd yn Natganiad Ardal De-orllewin Cymru a'r Datganiad Ardal Morol.

Roedd 25 o themâu gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol drafft Abertawe: Bwriedid i'r themâu gweithredu fod yn fwy cul o ran ffocws na'r chwe amcan yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru i arwain camau gweithredu partneriaid PNL, ond hefyd yn ddigon eang i weithredu fel ymbarél ar gyfer camau gweithredu partneriaid gan fod PNL Abertawe yn bartneriaeth amrywiol.  Darparwyd amserlen ddatblygu ar gyfer Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe hefyd.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Llygredd mewn afonydd, dŵr ffo yn mynd i mewn i afonydd a'r sicrwydd a ddarparwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y gwaith a wnaed wrth lunio'r adroddiad.

**Penderfynwyd:** -

1) Bod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau (PTG) Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur yn nodi pwysigrwydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe fel fframwaith partneriaeth hollgynhwysol er mwyn mynd ati i Adfer Natur.
2) Bod y PTG yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r cyngor am gymeradwyaeth.

## 18 Strategaeth Gwastraff y Dyfodol

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyng. Anderson, Aelod y Cabinet dros Gymunedau, a Chris Howell, Pennaeth Gwastraff, Glanhau a Pharciau, a oedd yn ceisio barn y Pwyllgor mewn perthynas â strategaethau gwastraff yn y dyfodol.

Amlinellwyd cefndir Strategaeth Gwastraff 2022-2025 ac amlygwyd bod yr holl gamau gweithredu i wella gwasanaethau sy'n gynwysedig yn strategaeth bresennol wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y cyngor wedi cyflawni cyfradd ailgylchu o dros 70% yn 2022/23, ddwy flynedd yn gynt na'r hyn sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth. Yn ogystal â chyflawni lefel uchel o ailgylchu, roedd y meincnodi ariannol mwyaf diweddar gan CLlLC o 2021/22 yn dangos bod y cyngor wedi darparu'r gwasanaeth rheoli gwastraff mwyaf cost-effeithiol yng Nghymru (h.y. y cost net isaf fesul aelwyd).

Ychwanegwyd bod y gwasanaeth rheoli gwastraff yn archwilio sut y gellid datblygu strategaeth gwastraff ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod y cyngor yn parhau i gyflwyno gwasanaeth hynod effeithiol a chost-effeithiol a hefyd leihau allyriadau carbon ymhellach.

Disgwylid y byddai'r cyngor yn llwyddo i leihau carbon yn bennaf drwy leihau gwastraff gweddilliol drwy gynyddu ailgylchu, newidiadau i ffynhonnell bŵer a/neu ddefnyddio cerbydau casglu a lleihau'r defnydd o sachau ailgylchu plastig.

Byddai lleihad mewn gwastraff gweddilliol yn cael ei gyflawni drwy ddargyfeirio mwy o wastraff o driniaeth thermol (egni o wastraff) i ailddefnyddio neu ailgylchu drwy ehangu nifer y ffrydiau ailgylchu a gasglwyd wrth ymyl y ffordd.

Ar ben hynny, yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru, byddai casglu deunyddiau ailgylchu ychwanegol o ymyl y ffordd, fel deunydd lapio plastig, cartonau a thecstilau yn cael ei dreialu i asesu ar gyfer symiau, ansawdd, marchnadoedd ailgylchu a chynaladwyedd.

Ychwanegwyd ymhellach y gallai allyriadau cerbydau gael eu lleihau o bosib drwy: -

- Gyflwyno casgliadau gardd tymhorol a fyddai'n lleihau'r milltiredd a deithiwyd;
- Ystyried newid i gerbydau allyriadau isel amgen (e.e. trydan neu hydrogen).

Roedd y pwyllgor wedi gofyn i'r maes gwasanaeth i ymchwilio i ddichonoldeb darparu cynwysyddion â chloriau ar gyfer casgliadau gwydr a chaniau. Darparwyd enghraifft.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Y cam cadarnhaol i ychwanegu deunyddiau ailgylchu at gasgliadau ymyl y ffordd.
- Y broses wahanu fwriadedig sy'n cael ei hystyried gan y maes gwasanaeth.
- Y cynnig i atal casgliadau gwastraff gardd ym mis Rhagfyr/Ionawr.
- Adborth ar ôl treialu'r cerbyd casglu a bwerir gan drydan a'r ffocws ar leihau milltiredd.
- Adborth ynghylch y bin enghreifftiol a ddarparwyd.
- Sut nad oedd biniau ailgylchu sefydlog yn ffynhonnell ailgylchu dda oherwydd halogiad.
- Byddai cynllun dychwelyd ernes Llywodraeth Cymru yn annog y cyhoedd i ddychwelyd cynnyrch ac felly lleihau gwastraff.

**Penderfynwyd:** -

1) Mewn egwyddor y byddai'r Pwyllgor yn gefnogol o'r potensial ar gyfer strategaethau gwastraff y dyfodol i anelu at leihau gwastraff gweddilliol, a fyddai yn ei dro yn arwain at gyfraddau ailgylchu uwch a'r arbedion carbon canlyniadol.
2) Mewn egwyddor, fod y Pwyllgor yn cefnogi'r opsiynau i leihau'r defnydd o danwydd yn y dyfodol ar gyfer cerbydau casglu gwastraff.
3) Bod y pwyllgor yn cefnogi'r defnydd o'r cynhwysydd ailddefnyddiadwy a ddarparwyd, ar yr amod bod teuluoedd mwy yn cael sawl blwch.

## 19 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad diweddaredig am y Cynllun Gwaith.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.39 pm

**Cadeirydd**

Cofnodion y Climate Change & Nature Recovery Service Transformation Committee
(04.09.2023)
Parhad

**1.**

**2.**

(A)

(B)